# Agenda - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 3 Hydref 2017

Amser: 09.30

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Meriel Singleton**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddSafonau@cynulliad.cymru

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(9.30)

## 2 Papur(au) i'w nodi

(9.30 - 9.35) (Tudalennau 1 - 2)

**2.1 Gohebiaeth am faterion yn ymwneud â Safonau'r DU: Gohebiaeth gan yr Arglwydd Bew, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (18 Gorffennaf 2017)**

(Tudalen 3)

## 3 Diwygio'r Cynulliad: Gohebiaeth gan y Llywydd

(9.35 - 9.50) (Tudalennau 4 - 5)

SoC(5)-09-17 Papur 1 - Gohebiaeth gan y Llywydd - Diwygio'r Cynulliad: Safonau Ymddygiad (18 Awst 2017)

## 4 Adroddiadau Blynyddol y Grwpiau Trawsbleidiol 2016-17

(9.50 - 10.05) (Tudalennau 6 - 23)

SOC(5)-09-17 Papur 2 - Adroddiad Blynyddol y Grwpiau Trawsbleidiol 2016-17

## 5 Lobïo: Ystyried Adroddiad Pwyllgor drafft

(10.05 - 10.45) (Tudalennau 24 - 46)

SoC(5)-09-17 Papur 3 - Adroddiad Drafft

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 4 - Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 18 Gorffennaf 2017

Amser: 09.31 - 09.46

# Preifat

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Jayne Bryant AC (Cadeirydd)<br>Gareth Bennett AC<br>Paul Davies AC<br>Llyr Gruffydd AC<br>Syr Roderick Evans QC |
| Comisiynydd Safonau: | Syr Roderick Evans QC |
| Staff y Pwyllgor: | Meriel Singleton (Ail Glerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Enrico Carpanini (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Gweithredu Deddf Cymru 2017: Llythyr gan y Llywydd (11 Gorffennaf, 2017)

2.1 Nodwyd y llythyr.

## 3 Adroddiad gan y Comisiynydd Safonau yn unol â Rheol Sefydlog 22.2(i): Trafod yr adroddiad drafft

3.1 Gwnaeth yr Aelodau drafod a derbyn yr adroddiad.

## 4 Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd Safonau ar gyfer 2016-17

4.1 Nododd y Pwyllgor yr adroddiad.

**Room GC.05**
**1 Horse Guards Road**
**London**
**SW1A 2HQ**

**Tel: 020 7271 2948**

**Email: public@public-standards.gov.uk**

**Committee on Standards in Public Life**

Elin Jones AM
Presiding Officer
The National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Y Swyddfa Breifat
20 JUL 2017
PO 220
Private Office

18 July 2017

Dear Elin,

I wanted formally to let you know that the Committee on Standards in Public Life is undertaking, at the request of the Prime Minister, a review into the intimidation of Parliamentary candidates, and the broader implications for other candidates and public office holders.

As you may be aware, our remit does not extend to the devolved territories, and as such we will not explicitly consider elections to the devolved Parliaments and assemblies in the UK. However, we expect to make recommendations that may be applicable to the National Assembly for Wales.

If you would like to discuss any of this, please do ask your office to contact the Secretariat who would of course be happy to fix a time and date for a conversation on the phone if that would be helpful.

Yours sincerely,

Paul Bew

Lord Bew
Chair, Committee on Standards in Public Life

**Selflessness I Integrity I Objectivity I Accountability I Openness I Honesty I Leadership**

Elin Jones AC, Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Elin Jones AM, Presiding Officer
National Assembly for Wales

Jayne Bryant AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedleathol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Eich cyf:
Ein cyf: EJ/HG

18 Awst 2017

Annwyl Jayne

**Diwygio'r Cynulliad: safonau ymddygiad**

Fel y gwyddoch, mae Deddf Cymru 2017 yn rhoi pwerau i'r Cynulliad bennu ei drefniadau mewnol, gweithredol ac etholiadol ei hun. Mae'r Comisiwn yn arwain gwaith i archwilio sut y gellid defnyddio'r pwerau hyn i sicrhau bod y sefydliad hwn yn ddeddfwrfa gryfach, fwy hygyrch, cynhwysol a blaengar sy'n darparu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Yn gynharach eleni, cyhoeddais fod y Comisiwn yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth yn 2018 i newid enw'r Cynulliad. Rwyf hefyd wedi sefydlu Panel Arbenigol i ystyried materion sy'n ymwneud â maint a threfniadau etholiadol y Cynulliad. Ar ôl i'r Panel gyflwyno ei adroddiad, bydd y Comisiwn yn ystyried cwmpas llawn y rhaglen ddiwygio a'r cynigion deddfwriaethol yr ydym yn bwriadu eu cyflwyno.

Fel rhan o'r gwaith cwmpasu hwn, mae'r Comisiwn hefyd yn ystyried a oes angen diwygio unrhyw un o adrannau Deddf Llywodraeth Cymru 2006 sy'n ymwneud â threfniadau mewnol y Cynulliad y bydd Deddf Cymru 2017 yn dod â hwy o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad.

Un adran o'r fath yw adran 36, sy'n gwneud darpariaeth sy'n ymwneud â gonestrwydd a safonau ymddygiad yr Aelodau. Gan fod y materion hyn yn dod o



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Llywydd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
0300 200 7403

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
Llywydd@assembly.wales
www.assembly.wales
0300 200 7403

**Elin Jones AC, Llywydd**
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
**Elin Jones AM, Presiding Officer**
National Assembly for Wales

fewn cylch gwaith eich Pwyllgor, byddwn yn croesawu eich sylwadau, a sylwadau eich Pwyllgor ar y canlynol:

- a yw'r darpariaethau presennol yn darparu fframwaith priodol a chymesur ar gyfer cyfundrefn safonau'r Cynulliad;
- a oes angen unrhyw ddiwygiadau, ac, os felly, a allai deddfwriaeth ddiwygio y Cynulliad fod yn gyfrwng deddfwriaethol priodol.

Er mwyn sicrhau y gall sylwadau eich Pwyllgor lywio'r gwaith o ddatblygu'r ddeddfwriaeth, byddai'n ddefnyddiol derbyn eich sylwadau ar unrhyw faterion a allai fod angen newid deddfwriaethol arnynt fel rhan o'r rhaglen ddiwygio erbyn diwedd 2017.

Yn gywir

Elin Jones AC
Llywydd

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon